



Cynnig i gau Ysgol Bro Cynllaith
Dogfen Ymgynghori



Os oes angen copi papur o'r ddogfen hon arnoch, neu gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Trawsnewid Addysg ar 01686 611553, neu anfonwch e-bost at transforming.education@powys.gov.uk.



Ymgynghoriad ar gau Ysgol Bro Cynllaith

Cynnwys

TROSOLWG	3
RHAN A – YR ACHOS DROS NEWID	5
1. CEFNDIR	5
2. PAM FOD ANGEN NEWID YM MHOWYS	7
3. Y CYD-DESTUN STRATEGOL.....	9
4. PAM MAE ANGEN NEWID YN YSGOL BRO CYNLLAITH	10
5. OPSIYNAU A GAFODD EU HYSTYRIED	11
6. OPSIWN A FFEFRIR.....	12
RHAN B – Y CYNNIG	13
7. TROSOLWG	13
8. RHESYMAU DROS Y CYNNIG	13
9. MANTEISION AC ANFANTEISION	13
10. RISGIAU.....	14
11. AMSERLEN GWEITHREDU POSIBL.....	14
RHAN C – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG	16
12. EFFAITH AR DDISGYBLION.....	16
13. EFFAITH AR STAFF.....	17
14. EFFAITH AR DDARPARIAETH MEITHRIN / BLYNYDDOEDD CYNNAR.....	17
15. EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU	17
16. EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG.....	17
17. YR ANGEN AM LEOEDD AC EFFAITH AR ARGAELEDD LLEOEDD A HYGYRCHEDD YSGOLION	22
18. ADNODDAU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL	26
19. YSTYRIAETHAU ERAILL.....	27
20. FFACTORAU PENODOL WRTH YSTYRIED CAU YSGOLION	29
21. ASESIAU EFFAITH CYDRADDOLDEB A CHYMUNEDOL.....	30
RHAN D – MANYLION YMGYNGHORI	33
ATODIAD A – DATA ALLWEDDOL	36
ATODIAD B – DADANSODDIAD SWOT A FFACTORAU LLWYDDIANT ALLWEDDOL	48
ATODIAD C – EFFAITH POB OPSIWN AR FEINI PRAWF YSGOLION GWLEDIG	55
ATODIAD D – RHESYMAU PAM NAD YW OPSIYNAU ERAILL WEDI'U DWYN YMLAEN	58
ATODIAD E – FFURFLEN YMATEB	60

Ymgynghoriad ar gau Ysgol Bro Cynllaith

TROSOLWG

1. Y Cynnig

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Bro Cynllaith. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- I gau Ysgol Bro Cynllaith ar 31 Awst 2025, gyda disgyblion sy'n byw ym Mhowys i drosglwyddo i'w hysgol arall agosaf ym Mhowys.

2. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r holiadur ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan:

<https://cy.powys.gov.uk/article/17193/Ysgol-Bro-Cynllaith>

Mae copi papur o'r holiadur hefyd ar gael yng nghefn y ddogfen hon. Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhaid derbyn yr holl ymatebion erbyn **14 Tachwedd 2024**.

3. Manylion cyswllt

Dylid anfon yr holl ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Trawsnewid Addysg
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

E-bost: school.consultation@powys.gov.uk

Ffôn: 01686 611553

4. Beth fydd yn digwydd nesaf

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei lunio a fydd yn amlinellu'r adborth a dderbyniwyd. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ystyried a ydynt am fwrw ymlaen â'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ai peidio. Disgwylir i hyn ddigwydd yn gynnar yn 2025.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, byddai hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi, a byddai cyfnod o 28 diwrnod i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau. Yna byddai angen i'r Cabinet ystyried adroddiad arall sy'n

crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.

RHAN A – YR ACHOS DROS NEWID

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Bro Cynllaith. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- I gau Ysgol Bro Cynllaith o 31 Awst 2025, gyda disgyblion sy'n byw ym Mhowys i drosglwyddo i'w hysgol arall agosaf ym Mhowys.

1. CEFNDIR

Ysgol gynradd gymunedol yw Ysgol Bro Cynllaith a leolir ym mhentref Llansilin yn nalgylch Llanfyllin yng Ngogledd Powys.

Mae'r map canlynol yn dangos lleoliad Ysgol Bro Cynllaith ac ysgolion cyfagos ym Mhowys:



Dyma grynodedb o ddata allweddol sy'n ymwneud â'r ysgol:

	Math o Ysgol	Categori laith	Nifer derbyn ¹	Ysgol Wledig ²
Ysgol Bro Cynllaith, Llansilin, Ger Croesoswallt, Swydd Amwythig, SY10 7QD	Ysgol Gynradd Gymunedol Adeilad ysgol sy'n eiddo i'r cyngor	Cyfrwng Saesneg	7	le

¹ Gwybodaeth a Threfniadau Derbyn Cyngor Sir Powys 2025-26

² Mae Atodiad F o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018)

(<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/school-organisation-code-second-edition.pdf>)

yn cynnwys rhestr o 'ysgolion gwledig', y mae'r 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig' yn berthnasol iddynt. Er nad yw Ysgol Bro Cynllaith wedi'i chynnwys yn y rhestr o 'ysgolion gwledig' sydd yn y Cod, barn y Cyngor yw y dylid cynnwys yr ysgol, felly bydd y Cyngor yn trin Ysgol Bro Cynllaith fel ysgol a nodwyd fel 'ysgol wledig'.

Mae niferoedd presennol y disgyblion³ yn yr ysgol fel a ganlyn:

	R	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Ysgol Bro Cynllaith	3	2	6	2	6	2	5	26

Ym mis Ebrill 2020, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth newydd ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys, sy'n nodi nifer o nodau ac amcanion i drawsnewid system addysg Powys dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr Powys nawr ac yn y dyfodol. Cafodd y Strategaeth ei diweddarau a'i hail-lansio ym mis Gorffennaf 2022, ynghyd â Rhaglen Waith ar gyfer Ton 2 y Rhaglen, sy'n cynnwys ymrwymiad i ailgychwyn a gorffen yr adolygiad o ddalgylch Llanfyllin / Gogledd y Trallwng, a ddechreuodd yn 2020.

Ym mis Medi 2023, ystyriodd Cabinet y Cyngor bapur a oedd yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad ac yn cyflwyno ffordd ddangosol a ffeirir ar gyfer yr ardal. Roedd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gau Ysgol Bro Cynllaith, ond byddai hyn yn amodol ar y Broses Statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Yn dilyn hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal ymarfer gwerthuso opsiynau i adnabod opsiwn a ffeirir ar gyfer Ysgol Bro Cynllaith.

Mae'r camau canlynol wedi'u cymryd:

- Ymarfer arfarnu opsiynau
- Argymhelliad wedi'i ystyried gan y Grŵp Swyddogion Trawsnewid Addysg a Bwrdd y Rhaglen Trawsnewid Addysg
- Argymhelliad wedi'i ystyried gan y Cabinet

Ar 17 Medi 2024, ystyriodd Cabinet y Cyngor adroddiad mewn perthynas ag Ysgol Bro Cynllaith, a chytunodd i ddechrau ymgynghori ar y canlynol:

'Cau Ysgol Bro Cynllaith o 31 Awst 2025, disgyblion o Bowys i drosglwyddo i'w hysgol arall agosaf ym Mhowys.'

³ Canolfan Athrawon, Medi 2024

2. PAM FOD ANGEN NEWID YM MHOWYS

Mae Powys yn awdurdod mawr, gwledig. Mae'n gorchuddio chwarter y tir yng Nghymru, ac mae'n cynnwys dim ond 4.2% o'r boblogaeth, sy'n golygu mai dyma'r sir lleiaf poblog yng Nghymru. Mae darparu gwasanaethau ar draws ardal mor fawr â phoblogaeth mor fach yn heriol ac yn ddrud.

Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn amlinellu nifer o heriau sy'n wynebu addysg ym Mhowys, a nodwyd yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn ystod tymor yr hydref 2019 a thymor y gwanwyn 2020.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r prif heriau sy'n wynebu'r Cyngor, fel yr amlinellir yn y Strategaeth:

i) Cyfran uchel o ysgolion bach

Yn seiliedig ar ffigurau PLASC 2021, roedd 33 o ysgolion cynradd bach ym Mhowys - sef tua 43% o'r ddarpariaeth gynradd yn y sir. Roedd gan 15 ysgol lai na 50 o ddisgyblion, ac i'r ysgolion hynny mae'r gyfran o gyllideb fesul disgybl ar y cyfan yn uwch na chyfartaledd Powys ar gyfer ysgolion cynradd.

ii) Lleihau niferoedd disgyblion

Mae nifer y disgyblion wedi gostwng dros y degawd diwethaf ac mae disgwyl iddynt ostwng ymhellach dros y pum mlynedd nesaf. Mae disgwyl i niferoedd disgyblion yn y sector cynradd ym Mhowys ostwng tua 5% erbyn 2026.

iii) Nifer uchel o leoedd gwag

Yn seiliedig ar ffigurau PLASC 2021, roedd 14% o gapasiti dros ben yn ysgolion cynradd Powys. Gyda disgwyl i niferoedd disgyblion ledled Powys ostwng yn gyffredinol dros y blynyddoedd nesaf, bydd cyfran y lleoedd gwag ar draws y sir yn parhau i gynyddu.

iv) Cyflwr adeiladu

Er bod y Cyngor wedi buddsoddi yn ei ystâd ysgolion drwy'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cynllun Rheoli Asedau, mae cyflwr adeiladu yn parhau i fod yn broblem ar draws Powys, gyda chostau cynnal a chadw cysylltiedig.

v) Pwysau ariannol

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn gyffredinol. Mae hyn yn effeithio ar bob maes gwasanaeth, gan gynnwys y sector ysgolion. Mae amrywiadau sylweddol yng nghyfran y gyllideb fesul disgybl ar draws ysgolion Powys.

vi) Anghydraddoldeb o ran mynediad i addysg Gymraeg

Yn wahanol i ardaloedd eraill o Gymru, does dim twf wedi bod yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys dros y blynyddoedd diwethaf. Mae angen newidiadau sylweddol i'r cynnig cyfrwng Cymraeg ym Mhowys i wyrddroi tuedd y blynyddoedd diwethaf a sicrhau bod holl ddysgwyr Powys yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynhwysfawr drwy gydol eu gyrfaedd addysgol.

vii) Cynnig ôl-14 ac ôl-16 cyfyngedig

Ym mis Medi 2019, ystyriodd Cabinet y Cyngor adroddiad ar ddarpariaeth ôl-16, a oedd yn amlinellu nifer o heriau sy'n wynebu'r sector, gan gynnwys lleihau nifer y dysgwyr, heriau ariannol a chynaliadwyedd y cwricwlwm a gynigir, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

viii) Anghydraddoldeb o ran mynediad at ddarpariaeth ADY/AAN

Ym Mhowys, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol / anghenion addysg arbennig (ADY/AAA) yn mynychu amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysgolion arbennig, canolfannau arbenigol, yr uned cyfeirio disgyblion (UCD) yn ogystal ag ysgolion prif ffrwd.

Ar hyn o bryd, nid yw pob disgybl yn cael eu haddysgu yn y lleoliad sy'n diwallu eu hanghenion orau, ac yn dibynnu ar ble mae disgyblion yn byw, mae ganddynt fynediad at ansawdd a math gwahanol o ddarpariaeth.

ix) Diffyg gwneud penderfyniadau gwleidyddol hanesyddol

Gadawodd methiant y Cyngor i weithredu nifer o gynigion proffil uchel yn y gorffennol etifeddiaeth ym Mhowys.

3. Y CYD-DESTUN STRATEGOL

Yn dilyn yr arolwg o Wasanaethau Addysg Powys a gynhaliwyd gan Estyn yn ystod haf 2019, cynhaliodd y Cyngor adolygiad strategol o ysgolion yn ystod 2019-20, a arweiniodd at ddatblygu Strategaeth newydd ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys. Cafodd y strategaeth, a ddatblygwyd yn dilyn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, ei chymeradwyo ym mis Ebrill 2020 a'i diweddarau yn dilyn etholiadau'r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai 2022.

Mae'r strategaeth yn nodi Datganiad Gweledigaeth ac Egwyddorion Arweiniol a fydd yn sail i waith y Cyngor i drawsnewid system addysg Powys dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Datganiad Gweledigaeth fel a ganlyn:

Bydd pob plentyn a pherson ifanc ym Mhowys yn profi addysg ysbrydoledig o ansawdd uchel i helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau a fydd yn eu galluogi i ddod yn ddinasyddion iach, llawn boddhad personol, economaidd gynhyrchiol, cyfrifol cymdeithasol ac ymgysylltiedig yn fyd-eang yng Nghymru'r 21ain ganrif.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r egwyddorion arweiniol, mae'r strategaeth yn amlinellu nifer o nodau ac amcanion i drawsnewid system addysg Powys dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr Powys nawr ac yn y dyfodol. Un o'r nodau hyn yw 'gwella hawl a phrofiad dysgwyr' ac mae'r nod hwn yn cynnwys amcan i 'resymoli darpariaeth sylfaenol'. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar ffurf adolygiadau dalgyrch, a'r cyntaf ohonynt yw adolygiad o ddalgyrch Llanfyllin.

Mae'r cynnig presennol mewn perthynas ag Ysgol Bro Cynllaith yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hyn.

4. PAM MAE ANGEN NEWID YN YSGOL BRO CYNLLAITH

Dyma grynodeb o'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Bro Cynllaith:

i) Nifer isel o ddisgyblion

Mae niferoedd disgyblion presennol⁴ Ysgol Bro Cynllaith fel a ganlyn:

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Ysgol Bro Cynllaith	3	2	6	2	6	2	5	26

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio 'ysgol fach' fel ysgol gyda llai na 91 o ddisgyblion. Mae niferoedd disgyblion Ysgol Bro Cynllaith yn sylweddol is na hyn, ac wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r niferoedd diweddaraf o ddisgyblion a ragwelir yn awgrymu nad oes disgwyl i niferoedd disgyblion gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.

ii) Cyfran cyllideb uchel fesul disgybl

Yn seiliedig ar Ddatganiad Cyllideb Adran 52 y Cyngor ar gyfer 2024-25, cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl oedd £8,000. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Powys o £4,799.78. Ysgol Bro Cynllaith yw'r 3ydd ysgol gynradd uchaf ym Mhowys yn ôl cyfran y gyllideb fesul disgybl.

iii) Dosbarthiadau oedran cyfun

Mae niferoedd disgyblion bach yr ysgol yn golygu bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau cyfnod allweddol cyfan, gyda dysgwyr sylfaen mewn un dosbarth a dysgwyr hŷn mewn un arall. Gan fod niferoedd disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn fach, mae'n anoddach sicrhau bod pob disgybl yn cael ei herio'n briodol a'u bod yn cael cyfleoedd i gydweithio â disgyblion o allu tebyg.

⁴ Canolfan Athrawon, 5ed Medi 2024

5. OPSIYNAU A GAFODD EU HYSTYRIED

Mae'r opsiynau canlynol wedi'u nodi ar gyfer Ysgol Bro Cynllaith:

Opsiw'n	Disgrifiad
1	Status quo – parhau fel ysgol annibynnol
2	Ffederasiwn gydag Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant
3	Uno ag Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant i sefydlu ysgol newydd ar ddau safle
4	Cau Ysgol Bro Cynllaith, ond cadw'r safle fel rhan o Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant
5	Cau Ysgol Bro Cynllaith, disgyblion i fynychu eu hysgolion eraill agosaf
6	Cau Ysgol Bro Cynllaith, disgyblion ym Mhowys i fynychu eu hysgolion eraill agosaf ym Mhowys – Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant fyddai hon ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion

Mae dadansoddiadau SWOT wedi'u cynnal ar gyfer pob un o'r opsiynau hyn. Yn ogystal, aseswyd yr opsiynau yn erbyn nifer o Ffactorau Llwyddiant Allweddol, ac ystyriwyd effaith debygol pob opsiwn ar ansawdd a safonau, y gymuned a'r trefniadau teithio hefyd. Gellir dod o hyd i'r rhain yn Atodiad B ac Atodiad C o'r ddogfen hon.

6. OPSIWN A FFEFRIR

Yn seiliedig ar ddadansoddiadau SWOT, yr asesiad yn erbyn y Ffactorau Llwyddiant Allweddol, ystyried effaith debygol pob opsiwn ar ansawdd a safonau, y gymuned a'r trefniadau teithio, mae'r opsiwn a ffefrir ar gyfer Ysgol Bro Cynllaith fel a ganlyn:

Opsiwn 6: Cau Ysgol Bro Cynllaith, disgyblion ym Mhowys i fynychu eu ysgolion eraill agosaf ym Mhowys

Y rhesymau am hyn yw:

- Byddai'n mynd i'r afael â'r mater o niferoedd disgyblion isel
- Lleihau capasiti gwag cyffredinol y Cyngor mewn ysgolion cynradd
- Arbedion refeniw i'r Cyngor
- Ni fyddai angen i'r Cyngor gynnal adeilad Ysgol Bro Cynllaith mwyach
- Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion mwy, a fyddai mewn sefyllfa well i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd
- Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion mwy, a allai ddarparu ystod ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol
- Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion gydag adeiladau o ansawdd gwell
- Byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda disgyblion o oedran tebyg
- Byddai disgyblion yn gallu parhau i gael mynediad at ddarpariaeth ym Mhowys
- Cyfle posibl i sicrhau derbynneb gyfalaf o werthiant y safle

Dyma'r sail ar gyfer y cynnig presennol y mae'r Cyngor yn ymgynghori arno.

Archwilir y cynnig ymhellach yn yr adran ganlynol. Mae'r rhesymau pam nad yw'r opsiynau eraill a ystyriwyd wedi cael eu datblygu wedi'u crynhoi yn Atodiad D o'r ddogfen hon.

RHAN B – Y CYNNIG

7. TROSOLWG

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Bro Cynllaith. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- Cau Ysgol Bro Cynllaith o 31 Awst 2025, gyda disgyblion o Bowys i drosglwyddo i'w hysgolion eraill agosaf ym Mhowys

8. RHESYMAU DROS Y CYNNIG

Mae'r Cyngor yn bwriadu cau Ysgol Bro Cynllaith am y rhesymau canlynol:

- Byddai'n mynd i'r afael â'r mater o niferoedd isel o ddisgyblion
- Lleihau lleoedd gwag y Cyngor mewn ysgolion cynradd
- Arbedion refeniw i'r Cyngor
- Ni fyddai angen i'r Cyngor gynnal adeilad Ysgol Bro Cynllaith mwyach
- Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion mwy, a fyddai mewn sefyllfa well i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd
- Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion mwy, a allai ddarparu ystod ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol
- Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion gydag adeiladau o ansawdd gwell
- Byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda chyfoedion o oedran tebyg
- Byddai disgyblion yn gallu parhau i gael mynediad at ddarpariaeth ym Mhowys
- Cyfle posibl i sicrhau derbynneb gyfalaf o werthiant y safle

9. MANTEISION AC ANFANTEISION

Crynoir manteision ac anfanteision y cynnig presennol i gau Ysgol Bro Cynllaith isod:

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none">- Byddai'n mynd i'r afael â'r mater o niferoedd isel o ddisgyblion- Lleihau capasiti gwaged cyffredinol y Cyngor mewn ysgolion cynradd- Arbedion refeniw i'r Cyngor- Ni fyddai angen i'r Cyngor gynnal adeilad Ysgol Bro Cynllaith mwyach- Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion mwy, a fyddai mewn sefyllfa well i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd- Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion mwy, a allai ddarparu ystod ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol	<ul style="list-style-type: none">- Teithio ychwanegol i'r disgyblion hynny y mae Ysgol Bro Cynllaith yn ysgol agosaf iddynt ar hyn o bryd- Costau teithio ychwanegol- Byddai'n rhaid i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd drosglwyddo i ddarpariaeth arall- Colli darpariaeth o Lansilin- Effaith ar staff presennol Ysgol Bro Cynllaith- Effaith ar gymuned Llansilin

<ul style="list-style-type: none"> - Byddai disgyblion yn mynychu ysgolion gyda llety o ansawdd gwell - Byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda chyfoedion o oedran tebyg - Byddai disgyblion yn gallu parhau i gael mynediad at ddarpariaeth ym Mhowys - Cyfle posibl i sicrhau derbynneb gyfalaf trwy werthu'r safle 	
--	--

10. RISGIAU

Fel gyda phob cynnig ad-drefnu ysgolion, mae rhai risgiau yn gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Bro Cynllaith.

Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod, ynghyd â chamau lliniaru awgrymedig:

Perygl	Tebygolrwydd	Ardrawiad	Lliniaru Gweithredoedd
Cyfnod o ansicrwydd i Ysgol Bro Cynllaith a allai gael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol	Canolig	Canolig	Y Cyngor i ddarparu cyngor a chymorth i'r ysgol a'r corff llywodraethu i sicrhau nad yw safonau a pherfformiad yn dirywio yn ystod y cyfnod pontio
Ansicrwydd i staff tra bod y broses yn parhau	Canolig	Canolig	Ymgysylltu â staff i'w cynnal drwy gydol y broses, a staff i gael eu hysbysu am ddatblygiadau
Gall disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion sydd wedi'u lleoli y tu allan i Bowys / Cymru yn hytrach na mynychu ysgolion eraill ym Mhowys	Canolig	Uchel	Cludiant i'w ddarparu i ysgolion eraill ym Mhowys

11. AMSERLEN GWEITHREDU POSIBL

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnigion, mae'r amserlen posibl ar gyda gweithredu fel a ganlyn:

Ymgynghoriad Ffurfiol	3 Hydref 2024 i 14 Tachwedd 2024
-----------------------	----------------------------------

Adroddiad ymgynghori i'w gyhoeddi, a'i ystyried gan y Cabinet	Ionawr 2025
---	-------------

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen:

Cyhoeddi Rhybudd Statudol (cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod)	Ionawr / Chwefror 2025
Adroddiad Gwrthwynebu i'w gyhoeddi a'i ystyried gan y Cabinet	Ebrill / Mai 2025

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo gweithredu:

Ysgol yn cau	31 Awst 2025
--------------	--------------

RHAN C – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

12. EFFAITH AR DDISGYBLION

i) **Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd**

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i'w hysgolion eraill agosaf ym Mhowys - Ysgol Gyradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant fyddai hon i'r mwyafrif o ddisgyblion. Cydnabyddir y byddai hyn yn cael effaith ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd, gan y byddai angen iddynt drosglwyddo i ysgol arall. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol bresennol a'r ysgolion eraill i sicrhau trosglwyddiad llyfn.

Gan y byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i'w darpariaeth arall agosaf, byddai angen cludiant ychwanegol ar gyfer disgyblion y mae Ysgol Bro Cynllaith yn ysgol agosaf iddynt ar hyn o bryd. Er y byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant cartref i'r ysgol y Cyngor, cydnabyddir y gallai fod effaith ar allu disgyblion i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol, ac y gallai fod mwy o amser teithio i'r ysgol i rai disgyblion.

Er mai cynnig y Cyngor yw i ddisgyblion drosglwyddo i'w hysgol arall agosaf ym Mhowys, byddai'r ysgol agosaf i lawer o ddisgyblion yn Sir Amwythig. Pe bai disgyblion yn dewis trosglwyddo i'r ysgolion hyn, ni fyddent bellach yn cael eu haddysgu yng Nghymru, felly ni fyddent yn cael mynediad at gwricwlwm Cymru mwyach, ac ni fyddent yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg.

Fodd bynnag, mae Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn ysgol dwy ffrwd tra bod Ysgol Bro Cynllaith yn ysgol cyfrwng Saesneg, felly byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn gallu cael mynediad i addysg Gymraeg yn yr ysgol. Byddai darpariaeth Trochi ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

ii) **Disgyblion Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant**

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau a byddai disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd yn trosglwyddo i'w hysgol arall agosaf ym Mhowys - Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant fyddai hon ar gyfer y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant gan y byddai'r ysgol yn derbyn disgyblion ychwanegol. Mae'n bosibl y byddai angen i Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant wneud rhai addasiadau i'w strwythur dosbarth i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol, yn enwedig o ystyried bod yr ysgol yn ysgol dwy ffrwd, ac yn

dibynnu pe bai'r disgyblion yn dymuno ymuno â ffrwd Gymraeg neu ffrwd Saesneg yr ysgol.

iii) Disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill

Er mai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant fyddai'r ysgol agosaf ym Mhowys i'r mwyafrif o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd, gall rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion eraill, gan gynnwys ysgolion ym Mhowys ac ysgolion yn Sir Amwythig. Felly, gallai'r cynnig hefyd effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgolion hyn gan y byddent yn derbyn disgyblion ychwanegol.

Fodd bynnag, mae cyfanswm y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith yn gymharol fach, felly ni ragwelir y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfagos. Byddai'r niferoedd sy'n cael eu derbyn i ysgolion cyfagos yn unol â'r nifer derbyn ar gyfer pob ysgol.

13. EFFAITH AR STAFF

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau. Byddai angen proses diswyddo staff ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn Ysgol Bro Cynllaith. Byddai hyn yn cael ei wneud yn unol â'r polisïau AD perthnasol ar gyfer staff addysgu a chymorth. Byddai'r holl staff glanhau ac arlwygo sy'n cael eu cyflogi'n ganolog ar hyn o bryd gan y Cyngor yn cael eu cefnogi gan y polisïau Adnoddau Dynol perthnasol ar gyfer gweithwyr y Cyngor.

14. EFFAITH AR DDARPARIAETH MEITHRIN / BLYNYDDOEDD CYNNAR

Ym mis Medi 2017, newidiodd y Cyngor oedran derbyn i ysgolion cynradd ym Mhowys o "ar ddechrau'r tymor y maent yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed" i "ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn dilyn eu pedwerydd pen-blwydd". Yn dilyn y newid hwn, nid oes disgyblion oed meithrin yn mynychu Ysgol Bro Cynllaith.

Darperir darpariaeth blynyddoedd cynnar a ariennir ar gyfer disgyblion mewn nifer o leoliadau ar draws Powys. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar nifer o safleoedd ysgolion, ond nid oes darpariaeth yn Llansilin. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Bro Cynllaith, byddai disgyblion ardal Llansilin yn parhau i allu cael mynediad at y darparwyr presennol yn yr ardal.

Mae Grŵp Mam a Phlant Bach yn cyfarfod yn Neuadd Goffa Llansilin sy'n ffinio â'r ysgol. Gallai'r grŵp hwn barhau i gyfarfod yn y Neuadd pe bai'r ysgol yn cau.

15. EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU

Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at gau Ysgol Bro Cynllaith a byddai corff llywodraethol Ysgol Bro Cynllaith yn cael ei ddiddymu.

16. EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG

16.1 Safonau, lles ac agweddau at ddysgu

i) Effaith debygol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol, grwpiau penodol ac mewn sgiliau

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai disgyblion ym Mhowys yn trosglwyddo i'w hysgol arall agosaf ym Mhowys. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant fyddai hon.

Cafodd Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant ei harolygu gan Estyn ym mis Mehefin 2022. Roedd canlyniad yr arolygiad yn gryf ar draws pob un o'r meysydd arolygu.

Barn y Cyngor yw y byddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf â'r un a ddarperir yn Ysgol Bro Cynllaith, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

Byddai hyn hefyd yn berthnasol mewn perthynas â disgyblion sy'n perthyn i grwpiau penodol, megis disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol ar eu cyfer, Plant sy'n Derbyn Gofal a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn seiliedig ar wybodaeth PLASC o fis Ionawr 2023, nid oes unrhyw Blant sy'n Derbyn Gofal na disgyblion y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol ar eu cyfer yn Ysgol Bro Cynllaith. Mae nifer o ddisgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a nifer o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yn fach. Ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd y disgyblion hyn.

Mae hyn hefyd yn wir mewn perthynas â'r effaith ar sgiliau pob disgybl, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a TGCh. Byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgol fwy, a fyddai'n darparu gwell cyfleoedd i rannu arbenigedd ac adnoddau staff, ac sydd â gwell gallu i fonitro cynnydd disgyblion yn yr agweddau hyn.

ii) Lles ac agweddau tuag at ddysgu

Yn y tymor byr, mae'n bosib y byddai effaith ar les disgyblion, gan y byddai angen iddynt drosglwyddo o Ysgol Bro Cynllaith i ysgol arall. Fodd bynnag, byddai'r ysgol(ion) sy'n derbyn yn darparu cefnogaeth lawn i'r disgyblion yn ystod y cyfnod pontio, er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol arnynt.

I rai disgyblion, gallai gweithredu'r opsiwn a ffefrir arwain at deithio ychwanegol, a allai gael effaith ar les disgyblion. Fodd bynnag, ni ystyrir y byddai'r amser teithio ychwanegol fyddai ei angen i ysgolion eraill yn ormodol.

Yn y tymor hwy, y bwriad yw y byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn cael effaith gadarnhaol ar les ac agweddau disgyblion at ddysgu gan y byddent yn trosglwyddo i ysgol fwy gyda charfannau mwy o ddisgyblion, gan ddarparu gwell cyfleoedd cymdeithasol ac allgyrsiol.

16.2 Profiadau dysgu ac addysgu

i) **Ansawdd yr addysgu**

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw bryderon am ansawdd yr addysgu yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr addysgu a brofir gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd.

ii) **Lled, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm**

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

Barn y Cyngor yw y byddai Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn darparu cwricwlwm sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysgol Bro Cynllaith. Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgol fwy, felly'r disgwyliad fyddai y byddai gwelliant yn ystod, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm a ddarperir i ddisgyblion. Byddai disgyblion hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau o ddisgyblion â gallu tebyg.

iii) **Darparu sgiliau**

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw bryderon am ddarparu sgiliau yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn cael effaith negyddol ar ddarparu sgiliau i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd.

16.3 Gofal cymorth ac arweiniad

i) **Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu**

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

Ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn cael effaith negyddol ar olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd. Ystyriwyd bod y meysydd hyn yn gryfderau yn arolwg Estyn o Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant ym mis Mehefin 2022.

16.4 Arweinyddiaeth a rheolaeth

i) Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

Ar hyn o bryd mae pennaeth dros dro yn Llanrhaeadr ym Mochnant. Mae'r trefniant hwn wedi'i sefydlu ers dwy flynedd academaidd ac mae wedi'i sefydlu i sicrhau arweinyddiaeth yn yr ysgol, yn dilyn recriwtio pennaeth parhaol aflwyddiannus. Barn y Cyngor yw y gellid sicrhau arweinyddiaeth yn dilyn trawsnewidiad yn y clwstwr. Amlygodd Estyn gryfderau ac nid oedd ganddynt unrhyw achos i bryderu am arweinyddiaeth yn ystod arolygiad Llanrhaeadr-ym-Mochnant ym mis Mehefin 2022.

Mae Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn fwy nag Ysgol Bro Cynllaith, ac felly byddai gan y pennaeth fwy o amser ar gael i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn Ysgol Bro Cynllaith, mae'n rhaid i'r pennaeth gydbwyso ymrwymiad addysgu mawr ochr yn ochr â dyletswyddau arweinyddiaeth a rheoli. Am un diwrnod yr wythnos, y pennaeth yw'r unig athro yn yr ysgol.

ii) Dysgu proffesiynol

Ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff sy'n gweithio yn Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd os na fyddant yn gallu sicrhau cyflogaeth arall.

Fodd bynnag, pe baent yn sicrhau cyflogaeth arall mewn ysgol fwy, mae'n debygol y byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu proffesiynol, gan ei bod yn debygol y byddai'r gyflogaeth arall mewn ysgol fwy, gyda grŵp mwy o staff, sy'n golygu y byddai'r cyfleoedd i rannu dysgu proffesiynol ac arwain ar ddatblygiad proffesiynol yn cynyddu.

iii) Defnyddio adnoddau

Ar hyn o bryd mae Ysgol Bro Cynllaith yn rhagweld gwarged o £20.6k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25 gan ostwng i £6.7k erbyn diwedd 2025-26. Mae'r ysgol yn ei chael hi'n fwyfwy heriol cydbwyso'r gyllideb yn ystod y flwyddyn oherwydd y cyfuniad o niferoedd isel y disgyblion a chwyddiant uchel ar gostau rhedeg y maent yn eu profi ar hyn o bryd. Pan fydd ysgolion bach yn dod ar draws unrhyw bwysau annisgwyl fel salwch tymor hir neu faterion cynnal a chadw adeiladau, yna mae'r risg o syrthio i ddiffyg yn uwch

gan fod ganddynt fwy o le cyfyngedig i leihau costau mewn meysydd eraill i wneud iawndal.

Un o'r prif heriau sy'n wynebu seilwaith ysgolion Powys yw'r gyfran uchel o ysgolion bach yn y sir ynghyd â lleoedd gwag sylweddol, gan arwain at gostau uwch sy'n gysylltiedig ag adeiladau fesul disgybl. Mae Ysgol Bro Cynllaith ymhlith yr ysgolion lleiaf yn y sir, ac mae cyfran y gyllideb fesul disgybl yn uwch na chyfartaledd cynradd Powys.

Byddai cau'r ysgol yn lleihau nifer gyffredinol yr ysgolion a nifer y llefydd gwag ym Mhowys. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ddefnyddio ei adnoddau'n fwy effeithiol er budd holl ddysgwyr Powys.

Pe bai'r opsiwn a ffeirir yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgol fwy, gan sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau'r ddwy ysgol ac adnoddau'r Cyngor.

16.5 Effaith ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) / Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Byddai gweithredu'r opsiwn a ffeirir yn effeithio ar unrhyw ddisgyblion bregus sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd, gan gynnwys unrhyw ddisgyblion ag ADY/AAA.

Yn seiliedig ar wybodaeth PLASC o fis Ionawr 2024, roedd cyfran y disgyblion ag ADY / AAA yn Ysgol Bro Cynllaith fel a ganlyn:

	Dim ADY	Gweith redu gan yr Ysgol	Gweith redu gan yr Ysgol a Mwy	Datgan iad	IDP Ysgol	IDP ALI	Cyfanswm ADY
Ysgol Bro Cynllaith	88%	8%	0	0	0	4%	12%

Er y byddai'r opsiwn a ffeirir yn effeithio ar y disgyblion hyn, gan y byddai'n ofynnol iddynt symud i ysgolion eraill, nid oes unrhyw reswm i gredu na fyddai'r ysgolion y gallent drosglwyddo iddynt yn gallu cwrdd â'u hanghenion.

Pe bai'r opsiwn yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Bro Cynllaith a'r ysgol sy'n derbyn i sicrhau trosglwyddiad effeithiol i unrhyw blant agored i niwed, gan gynnwys plant ag ADY/AAA, a'u teuluoedd.

16.6 Gallu'r ysgol/ysgolion sy'n destun y cynigion i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod allweddol o addysg, gan gynnwys ansawdd y cwricwlwm ac i ba raddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn

Pe byddai'r opsiwn a ffeirir yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill, felly ni fyddai angen i Ysgol Bro Cynllaith gyflwyno'r cwricwlwm i unrhyw gyfnodau allweddol mwyach.

I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Mae hyn yn golygu y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Mae'n bosibl y byddai angen i Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant wneud rhai addasiadau i'w strwythur dosbarth i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol, yn enwedig o ystyried bod yr ysgol yn ysgol dwy ffrwd, ac yn dibynnu pe bai'r disgyblion yn dymuno ymuno â ffrwd Gymraeg neu ffrwd Saesneg yr ysgol.

Mae'n bosib y gallai rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion eraill yn hytrach nag Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i unrhyw ysgol arall yn debygol o fod yn fach iawn, felly ni ragwelir y byddai hyn yn effeithio ar allu'r ysgolion hyn i gyflwyno'r cwricwlwm llawn i ddisgyblion.

16.7 Effaith ar ysgolion eraill

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i'w hysgol arall agosaf ym Mhowys. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Mae hyn yn golygu y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Mae'n bosibl y byddai angen i Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant wneud rhai addasiadau i'w strwythur dosbarth i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol, yn enwedig o ystyried bod yr ysgol yn ysgol dwy ffrwd, ac yn dibynnu pe bai'r disgyblion yn dymuno ymuno â ffrwd Gymraeg neu ffrwd Saesneg yr ysgol.

Mae'n bosib y gallai rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion eraill yn hytrach nag Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Er ei bod yn bosibl y gallai hyn gael rhywfaint o effaith ar dderbyn ysgolion, yn enwedig ar dderbyn disgyblion ychwanegol yn y tymor byr, mae cyfanswm y disgyblion yn Ysgol Bro Cynllaith yn gymharol fach. Felly, ni ragwelir y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd a safonau addysg (i gynnwys safonau, lles ac agweddau at ddysgu, profiadau addysgu a dysgu, cymorth ac arweiniad gofal, ac arweinyddiaeth a rheolaeth) mewn ysgolion cyfagos. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgolion eraill, gan y byddai'n arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion a'r cyfle i ddarparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion.

17. YR ANGEN AM LEOEDD AC EFFAITH AR ARGAELEDD LLEOEDD A HYGRYCHEDD YSGOLION

17.1 A fydd gan y ddarpariaeth arall ddigon o gapasiti ac yn darparu adeiladau o ansawdd cyfatebol o leiaf ar gyfer niferoedd disgyblion presennol ac a ragwelir?

Yr opsiwn a ffefrir yw i ddisgyblion drosglwyddo i'w hysgolion eraill agosaf ym Mhowys. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant fydd hon.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am nifer y lleoedd sydd ar gael a chyflwr adeiladu Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant:

Ysgol	Capasiti ⁵	Nifer presennol y disgyblion ⁶	Lleoedd sydd ar gael	Y capasiti sydd ar gael	Cyflwr Adeiladu	Addasrwyd d Adeiladu
Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	120	85	35	29%	A Da	A Da

Mae strwythur presennol yr ysgol fel a ganlyn⁷:

Ysgol	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
CA1E	3	7	5					15
CA1W	12	2	8					22
CA2E				5	9	4	5	23
CA2W				6	5	4	9	24
Cyfanswm	15	9	13	11	14	8	14	84

Mae PAN presennol Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn 15, sy'n seiliedig ar y ffigwr capasiti cyhoeddus o 108. Yn dilyn adolygiad o'r capasiti ym mis Mehefin 2024, mae capasiti'r ysgol wedi cynyddu i 120 gyda PAN o 17. Mae'r PAN yn ysgol gyfan nid fesul ffrwd.

Pe bai holl ddisgyblion presennol Ysgol Bro Cynllaith yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant, byddai niferoedd disgyblion yr ysgol fel a ganlyn, yn seiliedig ar niferoedd presennol y disgyblion yn y ddwy ysgol⁸:

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant	15	9	13	11	14	8	14	84
Ysgol Bro Cynllaith	3	2	6	2	6	2	5	26
CYFANSWM	18	11	19	13	20	10	19	110

⁵ Capasiti a gytunwyd gyda'r ysgol ym mis Gorffennaf 2024

⁶ Canolfan Athrawon, Medi 2024

⁷ Canolfan Athrawon, Medi 2024.

⁸ Canolfan Athrawon, Medi 2024.

Er bod y wybodaeth hon yn dangos y byddai'r grwpiau blwyddyn yn uwch na'r PAN diwygiedig o 17 mewn nifer o grwpiau blwyddyn, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol / corff llywodraethu i ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Bro Cynllaith sy'n dymuno trosglwyddo i Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

Gan fod Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn ysgol ddwy ffrwd, efallai y bydd angen i'r ysgol adolygu strwythur ei dosbarth pe bai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol.

Mae rhagamcanion disgyblion cyfunol ar gyfer y ddwy ysgol fel a ganlyn⁹:

	Ionawr 2024	Ionawr 2025	Ionawr 2026	Ionawr 2027	Ionawr 2028
Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant	86	86	78	78	74
Ysgol Bro Cynllaith	27	26	24	27	24
CYFANSWM	113	112	102	105	98

Mae hyn yn awgrymu bod disgwyl i gyfanswm nifer y disgyblion ar draws y ddwy ysgol ostwng dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae darpariaeth arall hefyd ar gael mewn nifer o ysgolion eraill sydd wedi'u lleoli o fewn 10 milltir i Ysgol Bro Cynllaith. Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am nifer y lleoedd sydd ar gael a chyflwr adeiladu'r ysgolion hyn:

Ysgol	Capasiti ¹⁰	Nifer presennol y disgyblion ¹¹	Lleoedd sydd ar gael	Capasiti sydd ar gael	Cyflwr Adeiladu	Addaswydd Adeiladu
Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant	120	85	35	29%	A Da	A Da
Ysgol yr E. yng Ngh. Llanfechain	47	43	4	9%	C Gwael	B Boddhaol
Ysgol yr E. yng Ngh. Llansanffraid	105	106	-1	-1%	B Boddhaol	C Gwael
Ysgol Llanfyllin (Bob Oed)	1102	774	320	30%	C Gwael	B / C Boddhaol/Gwael

⁹ Rhagamcanion Gwasanaeth Ysgolion Powys yn seiliedig ar PLASC Ion 2023

¹⁰ Powys – Arolwg Cyflwr Hydref 2023 a gafodd ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Cynyddodd capasiti Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn dilyn trafodaeth gyda'r ysgol ym mis Gorffennaf 2024.

¹¹ Canolfan Athrawon, Medi 2024

17.2 A yw'r ddarpariaeth arall yn ddigonol i ateb y galw presennol ac a ragwelir am ysgolion o'r un categori iaith a (os yw'n berthnasol) chymeriad crefyddol dynodedig?

Fel y nodwyd yn adran 10.1, mae digon o leoedd yn Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant i ddarparu ar gyfer niferoedd disgyblion presennol a rhagamcanol Ysgol Bro Cynllaith. Mae Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn ysgol dwy ffrwd, felly efallai y byddai angen i'r ysgol adolygu ei strwythur dosbarth yn dibynnu pe bai disgyblion yn dewis mynychu ffrwd cyfrwng Saesneg neu gyfrwng Cymraeg yr ysgol.

Mae darpariaeth ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gael mewn ysgolion eraill yn yr ardal hefyd, fel Ysgol Llanfyllin.

Ar hyn o bryd mae darpariaeth yr Eglwys yng Nghymru ar gael yn yr ardal yn Ysgol yr E. yng Ngh. Llanfechain ac Ysgol yr E. yng Ngh. Llansantffraid, ond cydnabyddir bod pwysau ar leoedd yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd. Ysgol G.G. yw Ysgol Bro Cynllaith. Mae digon o leoedd ar gael yn yr ardal i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd fynychu darpariaeth G.G. arall.

17.3 Beth fydd natur teithiau i ddarpariaeth arall ac amseroedd teithio sy'n deillio o hynny i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ADY/AAA?

Mae llefydd cynradd eraill ar gael yn Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant pe bai Ysgol Bro Cynllaith yn cau. Ni ystyrir y byddai hyd a natur teithiau i ddisgyblion i ddarpariaeth arall yn ormodol. Mae hyn yn cynnwys teithiau ar gyfer disgyblion ADY/AAA.

Ni fyddai teithiau unffordd i ddarpariaeth arall yn fwy na 45 munud.

17.4 I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a gymeradwywyd.

Ysgol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Bro Cynllaith, ac mae pob disgybl yn yr ysgol yn cael eu haddysgu yn Saesneg ar hyn o bryd. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffeirir, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgol arall. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant, sy'n ysgol dwy ffrwd, felly byddai disgyblion yn gallu mynegi dewis mynychu naill ai'r ffrwd Gymraeg neu'r ffrwd cyfrwng Saesneg. Mae'n bosib felly y byddai disgyblion yn dewis trosglwyddo i ffrwd Gymraeg yr ysgol, fyddai'n arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai disgyblion o Ysgol Bro Cynllaith am fynychu'r ffrwd Gymraeg, byddai'r Cyngor yn cynnig darpariaeth trochi i'w cefnogi gyda'r dewis hwn, a byddai gwybodaeth am addysg Gymraeg yn cael ei rhannu gyda rhieni, er mwyn annog disgyblion i ddewis darpariaeth cyfrwng Gymraeg.

Nod y Cyngor yw cefnogi pob ysgol i symud ar hyd y continwwm iaith, gan gynnwys Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant

17.5 Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau darpariaeth Gymraeg ac yn achos yr olaf, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.

Ni fyddai'r cynnig yn ehangu nac yn lleihau darpariaeth Gymraeg gan fod Ysgol Bro Cynllaith yn ysgol cyfrwng Saesneg. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffeirir, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yr ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant, sy'n ysgol ddwy ffrwd, felly byddai'r disgyblion yn gallu mynegi dewis am naill ai'r ffrwd Gymraeg neu'r ffrwd cyfrwng Saesneg.

Pe bai disgyblion o Ysgol Bro Cynllaith am fynychu'r ffrwd Gymraeg, byddai'r Cyngor yn cynnig darpariaeth trochi i'w cefnogi gyda'r dewis hwn.

18. ADNODDAU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL

18.1 Pa effaith fydd y cynigion yn ei gael ar lefydd gwag yn yr ardal?

Byddai gweithredu'r opsiwn a ffeirir yn arwain at ostyngiad cyffredinol mewn lleoedd gwag yn yr ardal.

18.2 A yw'r cynigion yn rhan o Raglen Buddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif yr awdurdod lleol ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif ac at well rheolaeth strategol ar ystâd yr ysgol?

Nid yw'r adolygiad o Ysgol Bro Cynllaith yn rhan o Raglen Fuddsoddi Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt).

Fodd bynnag, mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn nodi nifer o faterion yn ymwneud ag ystâd gyffredinol ysgolion Powys, gan gynnwys cyfran uchel o ysgolion bach, nifer uchel o leoedd gwag a phroblemau gyda chyflwr adeiladau. Mae'r Strategaeth yn cynnwys amcan strategol i 'Ail-drefnu a rhesymoli darpariaeth gynradd', sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn, er mwyn sicrhau gwell rheolaeth strategol ar ystâd ysgolion Powys. Mae'r adolygiad o Ysgol Bro Cynllaith yn cael ei gynnal fel rhan o adolygiad ehangach o ddalgyrch Llanfyllin er mwyn cyflawni'r amcan hwn.

18.3 Beth yw costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o dair blynedd o leiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael?

Costau rheolaidd y cynnig hwn fyddai'r costau cludiant cynyddol posibl, yr amcangyfrifir eu bod yn £70.8k ychwanegol y flwyddyn ar hyn o bryd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y gost refeniw, ac fe'i ariennir trwy arbedion mewn meysydd eraill o'r fformiwla mewn perthynas â'r cynnig hwn.

Bydd £10.6k yn rhagor o arbedion refeniw blynyddol mewn perthynas â'r rhent i neuadd y pentref unwaith y bydd y les wedi'i ildio.

18.4 A fydd costau trafndiaeth ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r cynnig?

Amcangyfrifir y byddai costau cludiant ychwanegol o £70.8k y flwyddyn, mae hyn yn seiliedig ar leoliad presennol y disgybl ac yn tybio y bydd y disgyblion yn mynd i Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

18.5 Beth yw costau cyfalaf y cynnig ac a yw'r arian cyfalaf angenrheidiol ar gael?

Ni ragwelir y byddai angen cyllid cyfalaf er mwyn gweithredu'r opsiwn a ffefrir. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai costau cyfalaf pe na bai digon o leoedd yn Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant i ddarparu ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo i'r ysgol.

18.6 Beth yw maint unrhyw arbedion net a ragwelir (gan ystyried refeniw ysgolion, trafndiaeth a chostau cyfalaf)

Amcangyfrifir y byddai hyn yn arwain at arbedion refeniw blynyddol o tua £77k i'r Cyngor. Mae'r ffigur cyffredinol hwn yn cynnwys arbediad posibl ar gyllid dirprwyedig ysgolion o dros £145.8k ac amcangyfrif o gostau trafndiaeth ychwanegol o £70.8k, gydag amcangyfrif o arbediad o £2k mewn perthynas ag arlwy.

18.7 Heb y cynigion, a fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffygion yn y gyllideb?

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhagweld gwarged cario ymlaen o £20.6k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25 gan ostwng i £6.7k erbyn diwedd 2025-26. Ar ôl hynny, mae'r ysgol yn rhagweld sefyllfa diffyg yn seiliedig ar y lefelau ariannu presennol.

18.8 A fydd unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol?

Byddai unrhyw arbedion ar gael i'w hailfuddsoddi fel rhan o broses cyllideb gorfforaethol y Cyngor a byddai unrhyw ail-fuddsoddi yn y system ysgolion yn cael ei gytuno fel rhan o'r cylch blynyddol hwnnw.

18.9 A fydd yr elw o werthu (derbyniadau cyfalaf) safleoedd gwag ar gael i dalu costau'r cynnig neu gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol ar leoedd mewn ysgolion?

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn cymhwyso ei Bolisi Rheoli Asedau, sy'n amlinellu'r broses ar gyfer ymdrin ag adeiladau dros ben. Mae hyn yn cynnwys ystyried a ellid defnyddio'r adeilad gan y gymuned neu gan wasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Os nad yw'r naill na'r llall o'r rhain yn bosibiliadau, yna mae gan y Cyngor yr opsiwn o werthu'r adeilad/safle.

Byddai unrhyw dderbynebaw cyfalaf a dderbynnir o werthiant safle Ysgol Bro Cynllaith yn cael eu hailfuddsoddi yn y rhaglen Trawsnewid Addysg er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol ar draws Powys.

19. YSTYRIAETHAU ERAILL

19.1 Effaith ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd

Byddai gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn effeithio ar unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd. Byddai

angen i bob disgybl sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys unrhyw un o gefndiroedd difreintiedig economaidd, drosglwyddo i ysgolion eraill. Byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant cartref i ysgol y Cyngor, ond cydnabyddir y byddai effaith ar deuluoedd oherwydd y gofyniad i deithio i ddigwyddiadau ysgol, a allai gael mwy o effaith ar blant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd.

Yn seiliedig ar wybodaeth PLASC o fis Ionawr 2024, roedd 11.1% o ddisgyblion Ysgol Bro Cynllaith yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

19.2 Tir ac Adeiladau

i) **Cymhariaeth o ansawdd yr adeiladau yn yr ysgol y byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo ohoni**

Mae'n gwybodaeth am ansawdd yr adeiladau yn Ysgol Bro Cynllaith, Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant ac ysgolion eraill y gallai disgyblion drosglwyddo iddynt yn Atodiad A. Mae ansawdd yr adeiladau yn Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn gyflwr B, sy'n well na ansawdd yr adeiladau yn Ysgol Bro Cynllaith.

ii) **Gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod lle i ddisgyblion a gaiff eu trosglwyddo**

Ni ragwelir y byddai angen unrhyw waith adeiladu i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Bro Cynllaith.

iii) **Manylion unrhyw drosglwyddiad posibl neu waredu tir neu adeiladau y gallai fod angen iddo ddigwydd o ganlyniad i'r cynigion**

Mae'r Cyngor yn berchen ar adeilad Ysgol Bro Cynllaith, felly nid oes angen trosglwyddo na gwaredu adeiladau.

iv) **P'un a yw'r ysgol / ysgolion dan sylw yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir.**

Nid yw Ysgol Bro Cynllaith yn ddarostyngedig i unrhyw ymddiriedolaeth y gellir ei heffeithio mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir.

Ar hyn o bryd mae trefniant prydles ar waith mewn perthynas â neuadd bentref Llansilin sy'n ymrwmo'r Cyngor i ariannu'r gwaith o gynnal a chadw'r adeilad yn rhannol. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol a chau'r ysgol yn y pen draw, byddai angen trafod terfynu'r les. Cydnabyddir y byddai hyn yn effeithio ar neuadd y pentref.

19.3 Llwybrau cerdded i'r ysgol

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, ni fyddai angen llwybrau cerdded sydd wedi'u sefydlu ar hyn o bryd ar gyfer Ysgol Bro Cynllaith mwyach.

I'r disgyblion hynny y mae Ysgol Bro Cynllaith ar eu cyfer yn yr ysgol agosaf ar hyn o bryd, byddai angen teithio ychwanegol i gael mynediad at ddarpariaeth arall. I'r disgyblion hyn, mae'n annhebygol y byddai cerdded neu feicio i'r ysgol arall yn bosibl.

19.4 Derbyniadau i ysgolion

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai derbyniadau i ysgolion eraill agosaf ym Mhowys yn parhau i gael eu gweinyddu gan y Cyngor yn unol â Pholisi Derbyn y Cyngor, sydd ar gael ar-lein yn: <https://cy.powys.gov.uk/article/7627/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol>.

Pe bai pob disgybl yn trosglwyddo i Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant, cydnabyddir y byddai nifer y disgyblion mewn rhai grwpiau blwyddyn yn uwch na'r Nifer Derbyn Disgyblion. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda chorff llywodraethu'r ysgol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.

19.5 Cludiant o'r cartref i'r ysgol

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

20. FFACTORAU PENODOL WRTH YSTYRIED CAU YSGOLION

i) P'un a ellir ystyried sefydlu ysgolion aml-safle fel modd o gadw adeiladau, neu'r rhesymau dros beidio â dilyn yr opsiwn hwn

Mae amrywiaeth o opsiynau wedi cael eu hystyried mewn perthynas ag Ysgol Bro Cynllaith, mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Atodiad B o'r ddogfen hon, yn ogystal ag asesiad o bob opsiwn sy'n cynnwys crynodeb o'r gwendidau/bygythiadau sy'n gysylltiedig â phob un.

Mae niferoedd disgyblion Ysgol Bro Cynllaith yn isel ac wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r niferoedd disgyblion a ragwelir diweddaraf yn awgrymu nad oes disgwyl i niferoedd disgyblion gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Ni fyddai sefydlu ysgol aml-safle yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

ii) P'un a ellid ystyried dewisiadau eraill yn lle cau, megis clystyru, cydweithredu neu ffederasiwn gydag ysgolion eraill, neu'r rhesymau dros beidio â dilyn y rhain fel dewis arall

Ffedereiddio Ysgol Bro Cynllaith gydag Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yw un o'r opsiynau a ystyrir yn Atodiad B o'r ddogfen hon. Cynhaliwyd asesiad o'r opsiwn hwn, sy'n cynnwys crynodeb o'r gwendidau/bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Mae niferoedd disgyblion Ysgol Bro Cynllaith yn isel ac wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r niferoedd diweddaraf o ddisgyblion a ragwelir yn awgrymu nad oes disgwyl i niferoedd disgyblion gynyddu'n sylweddol dros

y blynyddoedd nesaf. Ni fyddai dod yn rhan o ffederasiwn gydag ysgol arall yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

iii) P'un a ellid archwilio'r posibilrwydd o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol

Barn y Cyngor yw na fyddai gwneud mwy o ddefnydd o'r adeilad presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn perthynas ag Ysgol Bro Cynllaith.

Mae nifer y disgyblion yn yr ysgol yn isel ac nid oes disgwyl iddynt gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.

iv) Effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau mewn ysgolion sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned leol)

Byddai gweithredu'r opsiwn a ffeirir yn golygu na fyddai darpariaeth bellach yn Llansilin. Cydnabyddir y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar gymuned Llansilin, gan gynnwys colli darpariaeth gynradd o bentref Llansilin, a cholli unrhyw gyfleusterau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r ysgol o'r pentref.

Cynhaliwyd asesiad effaith cymunedol drafft, gyda mewnbwn gan yr ysgol. Cyhoeddwyd hyn fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Bydd hyn yn cael ei ddiweddarau drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth a dderbynnir a bydd Cabinet y Cyngor yn ei ystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

v) Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai cymorth yn cael ei ddarparu i ddisgyblion a'u rhieni fel rhan o'r broses bontio, a thrwy hynny sicrhau ymgysylltiad llawn â'u hysgolion newydd. Bydd natur y cymorth hwn yn dibynnu ar anghenion y rhieni/disgyblion. Fodd bynnag, gallai hyn gynnwys trefniadau pontio effeithiol gyda'r ysgol sy'n derbyn er mwyn sicrhau bod pontio disgyblion yn gadarnhaol.

21. ASESIAU EFFAITH CYDRADDOLDEB A CHYMUNEDOL

Mae asesiadau effaith drafft wedi'u cynnal mewn perthynas â'r cynnig. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau yn dilyn y cyfnod ymgynghori i adlewyrchu unrhyw faterion ychwanegol a godwyd. Mae'r asesiadau ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://cy.powys.gov.uk/article/17193/Ysgol-Bro-Cynllaith>

Rhoddir crynodeb o'r asesiadau isod:

i) Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Bro Cynllaith yn cau, a byddai disgyblion o Bowys yn mynychu eu hysgolion eraill agosaf ym Mhowys.

Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Cynllaith ar hyn o bryd, gan gynnwys unrhyw ddisgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodwedd gwarchodedig sy'n mynychu'r ysgol honno, gan y byddai angen teithio ychwanegol er mwyn mynychu eu hysgol arall agosaf.

Er y cydnabyddir y byddai'r cynnig yn effeithio ar ddisgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodwedd gwarchodedig sy'n mynychu'r ysgol, nodir y dylai ysgolion eraill, sy'n fwy nag Ysgol Bro Cynllaith, allu cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn fwy effeithiol, cynnig gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion, a hefyd cynnig mwy o ofal cofleidiol i gefnogi rhieni. Felly, mae'n debygol y bydd effeithiau negyddol teithio ychwanegol yn cael eu lliniaru gan fanteision mynychu ysgol fwy. Yn ogystal, nid oes rheswm i feddwl na fyddai ysgolion eraill yn gallu diwallu anghenion disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodwedd gwarchodedig a fyddai'n cael eu heffeithio, gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a phlant sy'n Derbyng Gofal.

ii) **Effaith ar y gymuned**

Mae'n amlwg bod ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ar gael i ddisgyblion Ysgol Bro Cynllaith. Pe na bai ysgol yn Llansilin, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. Ysgolion mwy fyddai'r rhain, a'r disgwyl yw y byddai o leiaf ystod debyg o weithgareddau ar gael i ddisgyblion. Fodd bynnag, cydnabyddir mai Ysgol Bro Cynllaith yw'r ysgol agosaf ar hyn o bryd i bron pob disgybl presennol. Pe bai'r ysgol yn cau, byddai angen teithio ychwanegol i alluogi disgyblion i gael mynediad i'w hysgol agosaf.

Er y byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol sydd ar waith bryd hynny, cydnabyddir y gallai fod effaith ar allu rhai disgyblion i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol, a gallai hefyd gael effaith ar allu rhieni i gymryd rhan mewn digwyddiadau ysgol, cyfarfodydd etc. Gallai hyn effeithio ar eu gallu i gael mynediad at weithgareddau, yn enwedig lle mae'r rhain yn digwydd ar ôl ysgol.

Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd gan yr ysgol yn awgrymu bod cysylltiadau helaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned leol, a bod llawer o weithgareddau cymunedol yn cael eu trefnu yn yr ysgol y mae'r gymuned yn cael mynediad ati. Cydnabyddir felly y gallai cau'r ysgol gael effaith ar y gymuned o ran y gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd ar gael.

Mae yna Neuadd Goffa yn Llansilin a fyddai'n parhau i fod ar gael i'r gymuned pe bai'r ysgol yn cau. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi nodi y byddai cau'r ysgol yn ei gwneud bron yn amhosibl i'r neuadd barhau. Mae pryder hefyd wedi ei fynegi am yr effaith ar fusnes arall yn y pentref, fel y siop gymunedol a'r dafarn leol.

Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr ysgol yn dangos y byddai cau'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar y gymuned leol.

RHAN D – MANYLION YMGYNGHORI

Gyda phwy fyddwn ni'n ymgynghori?

Bydd y Cyngor yn ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n cynnwys y canlynol:

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid Ysgol Bro Cynllaith ac ysgolion eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt
- Llywodraethwyr Ysgol Bro Cynllaith ac ysgolion eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt
- Staff Ysgol Bro Cynllaith ac ysgolion eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt
- Disgyblion Ysgol Bro Cynllaith ac ysgolion eraill a allai gael eu heffeithio gan y cynnig
- Gweinidog Addysg Cymru
- Cyngorwyr Lleol Powys
- Cyngorau Tref a Chymuned yn yr ardal leol
- Aelodau'r Senedd dros Sir Drefaldwyn ac ar gyfer rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Yr Aelod Seneddol dros Sir Drefaldwyn a Glyndŵr
- Estyn
- Undebau staff ac addysgu
- Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys
- Darparwyr meithrinfeydd yn yr ardal leol
- Mudiad Meithrin
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys

Y cyfnod ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 3 Hydref 2024 a bydd yn dod i ben ar 14 Tachwedd 2024.

Y broses statudol

Bydd ymgynghoriad ar y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig a ddaeth yn weithredol ar 1 Tachwedd 2018. Mae'r broses wedi'i chrynhofu isod:

i) Ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 3 Hydref 2024 a bydd yn dod i ben ar 14 Tachwedd 2024. Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei gasglu a'i grynhoi, a bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei lunio a'i rannu gyda rhanddeiliaid.

Mae'n bwysig nodi na fydd ymatebion a wneir i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig, ac mai dim ond gwrthwynebiadau y gellir eu cofrestru ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori a'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a bydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna ddiwedd y cynnig hwn.

Rhagwelir y bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn gynnar yn 2025.

ii) Rhybudd statudol

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, byddai hysbysiad statudol yn cael eu cyhoeddi ar ôl cyfarfod y Cabinet. Yna byddai cyfnod o 28 diwrnod i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig.

Pe byddai gwrthwynebiadau, byddai'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu yn rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor iddynt cyn diwedd 7 diwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod dyfarniad yr awdurdod lleol. Dim ond gwrthwynebiadau ysgrifenedig a gyflwynir yn ystod y cyfnod rhybudd statudol fydd yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau a'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ni fyddai sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau. Pe bai rhanddeiliaid yn dymuno i'w hymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau, byddai angen eu hailgyflwyno'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor, y byddent yn ei ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad gwrthwynebu, er mwyn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio.

Rhagwelir y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud erbyn diwedd Mai 2025 fan bellaf.

iii) Gweithredu

Pe bai Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, byddai'n cael ei weithredu yn unol â'r dyddiad a roddir yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad a addaswyd wedi hynny.

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ynghlwm wrth y ddogfen hon. Mae fersiwn ar-lein hefyd ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://cy.powys.gov.uk/article/17193/Ysgol-Bro-Cynllaith>

Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig.

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ac ymatebion ysgrifenedig eraill i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Trawsnewid Addysg, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG

E-bost: school.consultation@powys.gov.uk

Rhaid derbyn pob gohebiaeth erbyn **14 Tachwedd 2024**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y cynnig hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Trawsnewid Addysg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, neu drwy ffonio (01686) 611553.

ATODIAD A – DATA ALLWEDDOL

Rhoddir data allweddol am yr ysgolion yr effeithir arnynt isod:

1. Ysgol Bro Cynllaith

Gwybodaeth gyffredinol

	Math o Ysgol	Categori laith	Nifer derbyn ¹²	Ysgol Wledig? ¹³
Ysgol Bro Cynllaith	Ysgol Gynradd Gymunedol Adeilad ysgol sy'n eiddo i'r Cyngor	Cyfrwng Saesneg	7	le

Nifer y Disgyblion

i) Nifer presennol y disgyblion¹⁴

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Ysgol Bro Cynllaith	3	2	6	2	6	2	5	26

ii) Niferoedd disgyblion hanesyddol¹⁵

	lon. 2017	lon. 2018	lon. 2019	lon. 2020	lon. 2021	lon. 2022	lon. 2023	lon. 2024
Ysgol Bro Cynllaith	32	29	30	26	26	23	27	25

iii) Niferoedd disgyblion a ragwelir¹⁶

¹² Gwybodaeth a Threfniadau Derbyn Cyngor Sir Powys 2024-25

¹³ Mae Atodiad F o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018)

(<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/school-organisation-code-second-edition.pdf>) yn cynnwys rhestr o 'ysgolion gwledig', y mae'r 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig' yn berthnasol iddi. Er nad yw Ysgol Bro Cynllaith wedi'i chynnwys yn y rhestr o 'ysgolion gwledig' sydd wedi'i chynnwys yn y Cod, barn y Cyngor yw y dylid cynnwys yr ysgol, felly bydd y Cyngor yn trin Ysgol Bro Cynllaith fel ysgol a nodwyd fel 'ysgol wledig'.

¹⁴ Canolfan Athrawon, 5ed Medi 2024

¹⁵ PLASC

¹⁶ Rhagamcanion Gwasanaeth Ysgolion Powys yn seiliedig ar PLASC 2023 a Chyfraddau Geni. Nid yw rhagamcanion 2024 ar gael eto.

	Ionawr 2024	Ionawr 2025	Ionawr 2026	Ionawr 2027	Jan. 2028
Ysgol Bro Cynllaith	27	26	24	27	24

Capasiti a Chyflwr Adeiladau

i) Capasiti

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am gapasiti presennol yr ysgol a'r lle dros ben:

	Capasiti ¹⁷	Lleoedd wedi'u llenwi ar hyn o bryd ¹⁸	Lle dros ben ¹⁹
Ysgol Bro Cynllaith	54	26	28 (52%)

ii) Cyflwr adeiladau²⁰

	Cyflwr	Addasrwydd
Ysgol Bro Cynllaith	C Gwael	B Boddhaol

Ansawdd Addysg

i) Estyn

	Ysgol Bro Cynllaith
Dyddiad yr arolygiad	Rhagfyr 2023
Argymhellion	<p>A1 – Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad</p> <p>A2 – Cryfhau gweithdrefnau i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion er mwyn gwerthuso'n fwy effeithiol y safonau y maent yn eu cyflawni</p> <p>A3 – Gwella safonau ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol</p>

¹⁷ Capasiti MSCW o Ddychweliad Llywodraeth Cymru ar Gynllunio Lleoedd Ysgol – Hydref 2023

¹⁸ Yn seiliedig ar niferoedd presennol y disgyblion – Mehefin 2024

¹⁹ Yn seiliedig ar niferoedd presennol y disgyblion – Mehefin 2024

²⁰ Llywodraeth Cymru yn dychwelyd Mehefin 2023

	A4 – Darparu her briodol a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau dysgu annibynnol
Gweithgaredd dilynol	Adolygiad Estyn. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

Gwybodaeth ariannol

i) Cost fesul disgybl²¹

	Cyfran y gyllideb fesul ysgol	Cyfran cyllideb fesul disgybl	Cyllideb AAA tybiannol	Arian nad yw'n ISB wedi'i ddirprwyo i'r ysgol
Ysgol Bro Cynllaith	£200,000	£8,000	£7,000	£18,000

Teithio o'r cartref i'r ysgol

i) Yr ysgol agosaf

Cynhaliwyd dadansoddiad o batrymau teithio disgyblion, yn seiliedig ar y 27 disgybl a oedd yn mynychu Ysgol Bro Cynllaith yn ôl gwybodaeth PLASC 2023. Y darparwr agosaf ar gyfer y disgyblion hyn yw:

Yr ysgol agosaf	Disgyblion Ysgol Bro Cynllaith
Ysgol Bro Cynllaith	96.3%
Ysgol Gynradd Trefonen (Swydd Amwythig)	3.7%

Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, Ysgol Bro Cynllaith yw'r ysgol agosaf ar gyfer 96.3% o ddisgyblion yr ysgol sydd ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

Pe na bai ysgol yn Llansilin, yr ysgol agosaf i'r holl ddisgyblion a oedd ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023 fyddai:

	Ysgol agosaf y disgyblion pe na bai ysgol yn Llansilin
--	---

²¹ Datganiad Cyllideb Adran 52, 2024/2025.

Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	7.4%
Ysgol Gynradd Selattyn (Swydd Amwythig)	37.0%
Ysgol Gynradd Trefonen (Swydd Amwythig)	51.9%
Ysgol yr E. yng Ngh. Llansantffraid	3.7%

Pe na bai ysgol yn Llansilin, yr ysgol agosaf ym Mhowys ar gyfer y disgyblion a oedd ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023 fyddai:

	Ysgol agosaf y disgyblion pe na bai ysgol yn Llansilin
Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	85.2%
Ysgol yr E. yng Ngh. Llansantffraid	14.8%

ii) Pellter teithio ar gyfartaledd

Y pellter teithio cyfartalog ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023 yn Ysgol Bro Cynllaith i'r ysgol oedd 1.40 milltir.

Pe na bai ysgol yn Llansilin, y pellter teithio cyfartalog ar gyfer pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol ym mis Ionawr 2023 i'w hysgol arall agosaf fyddai 4.77 milltir.

Pe na bai ysgol yn Llansilin, 6.64 milltir fyddai cyfartaledd y pellter teithio ar gyfer pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol ym mis Ionawr 2023 i'w hysgol arall agosaf ym Mhowys.

iii) Pellter teithio pellaf

O'r disgyblion a fynychodd Ysgol Bro Cynllaith ym mis Ionawr 2023, y pellter teithio pellaf i'r ysgol ar gyfer y disgyblion hynny yr oedd Ysgol Bro Cynllaith yn ddarparwr agosaf iddynt oedd 3.62 milltir.

Pe na bai ysgol yn Llansilin, y pellter pellaf i'r ysgol arall agosaf fyddai 5.66 milltir.

Pe na bai ysgol yn Llansilin, y pellter pellaf i'r ysgol arall agosaf ym Mhowys fyddai 9.01 milltir.

Gwybodaeth am gydraddoldeb

i) Prydau Ysgol am Ddim²²

	% TP yn gymwys	eFSM% yn gymwys	Cyfanswm % FSM cymwys
Ysgol Bro Cynllaith	0.0%	12.0%	12.0%

ii) Plant sy'n derbyn gofal²³

	% o blant sy'n derbyn gofal
Ysgol Bro Cynllaith	0

iii) AAA / ADY²⁴

	Dim ADY	Gweithredu gan yr Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Datganiad	IDP Ysgol	IDP ALI	Cyfanswm ADY
Ysgol Bro Cynllaith	88%	8%	0	0	0	4%	12%

iv) SIY²⁵

	% o ddisgyblion SIY
Ysgol Bro Cynllaith	0

v) Hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd²⁶

Hunaniaeth Genedlaethol

	Prydeinig	Saesneg	Gwyddelig	Albaneg	Cymreig	Arall	Heb ei ddarparu
Ysgol Bro Cynllaith	44.0%	0%	0%	0%	48.0%	0%	8.0%

Grŵp ethnig

²² PLASC 2024

²³ Canolfan Athrawon, 5ed Ionawr 2024

²⁴ PLASC 2024

²⁵ PLASC 2024

²⁶ PLASC 2024

	% Gwyn Prydain	% ethnigrwydd hysbys arall	% heb ei ddarparu
Ysgol Bro Cynllaith	96.0%	0.0%	4.0%

2. Ysgolion eraill y gellir eu heffeithio

2.1 Ysgolion Powys

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Bro Cynllaith yn cael ei weithredu, y cynnig yw y byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill ym Mhowys. I bron pob disgybl, Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant fyddai hon, fodd bynnag mae'n bosib y byddai rhai disgyblion yn nalgylch bresennol Ysgol Bro Cynllaith yn agosach at Ysgol yr E. yng Ngh. Llansantffraid.

Gwybodaeth gyffredinol

	Math o Ysgol	Categori laith	Nifer derbyn ²⁷	Ysgol Wledig? ²⁸
Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	Ysgol Gynradd Gymunedol	Dwy ffrwd	15	le
Ysgol yr E. yng Ngh. Llansantffraid	Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyr yng Nghymru	Cyfrwng Saesneg	15	le

Nifer y Disgyblion

ii) Nifer presennol y disgyblion²⁹

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfan swm
Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	15	9	13	11	14	8	14	84

²⁷ Gwybodaeth a Threfniadau Derbyn Cyngor Sir Powys 2025-26

²⁸ Mae Atodiad F o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018)

(<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/school-organisation-code-second-edition.pdf>) yn cynnwys rhestr o 'ysgolion gwledig', y mae'r 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig' yn berthnasol iddi.

²⁹ Canolfan Athrawon, 30 Medi 2024

Ysgol yr E. yng Ngh. Llansantffraid	14	15	12	18	16	16	17	108

ii) **Nifer y disgyblion hanesyddol (D – BI 6)**³⁰

	lon. 2018	lon. 2019	lon. 2020	lon. 2021	lon. 2022	lon. 2023	lon. 2024
Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	75	71	75	73	76	79	84
Ysgol yr E. yng Ngh. Llansantffraid	100	108	110	104	110	112	103

iii) **Niferoedd disgyblion a ragwelir**³¹

	lonawr 2024	lonawr 2025	lonawr 2026	lonawr 2027	lonawr 2028
